Ardal Llansannan – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
Dydd Llun 16 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. W. E. Jones
Cyng. S. L. Williams

1. Cyflwyniad

Rhoddodd GT gyflwyniad gan esbonio'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar gynnydd y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Os nad ydych wedi penderfynu unrhyw beth, pam fod 7 ardal dal yn ddiogel?
A: Bydd yr ardaloedd hynny yn cael eu hadolygu maes o law ond nid ydynt angen sylw yn syth fel rhai ardaloedd eraill. Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd ble nad oes rheswm dros newid ar hyn o bryd nid oes problemau gyda lleoedd gwag neu maent eisoes yn agos at y safonau addas i'r pwrpas.
C: A fydd y data yn y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu yn cael ei ddiweddaru cyn ysgrifennu'r strategaeth ddrafft?
A: Rydym yn derbyn fod y data ond yn gywir pan y'u hargraffwyd ac felly byddwn yn parhau i adolygu'r data. Adolygir y data cyn cynhyrchu'r strategaeth ddrafft. Ni fydd unrhyw benderfyniadau a wneir yn seiliedig yn unig ar yr ystadegau a gyflwynwyd.
C: Sawl un o'r 7 ardal 'ddiogel' sydd mewn ardal wledig?
A: Mae un ardal yn ardal wledig. Mae 17 ardal ar gyfer adolygiad dechreuol ac mae cymysgedd o ardaloedd arfordirol a gwledig. Roedd yn bwysig i ni gael y cydbwysedd hwn.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Eglurwyd y cyfrifir capasiti ysgol gan ddefnyddio fformiwla a ddarperir gan LlCC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Os oedd dosbarth meithrin, ni chynhwysir yr arwynebedd llawr hwn. O ran lleoedd gwag, dim ond disgyblion amser llawn a ystyrir yn y cyfrifiad hwn.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut y cyfrifir hyn - edrychwyd ar y derbyniadau ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf ac yna defnyddiwyd cyfartaledd i ragamcanu niferoedd disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhagamcanion ar gyfer pob ysgol yn gywir o fewn 1%. Roedd rhagamcanion disgyblion hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Cynhyrchwyd y rhestr 'addas i'r pwrpas' trwy adolygiad o Fwletinau Adeiladu a'r awgrymiadau a gafwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori cychwynnol. Nid oedd y rhestr yn rhestr o bethau hanfodol ond os adeiladwyd ysgol newydd, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn. Os oes gan un ystafell ddau ddefnydd, dim ond y prif ddefnydd a diciwyd ar y rhestr. Nodwyd fod y ddogfen yn gywir pan y'u hargraffwyd a byddai unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth ddrafft.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: Beth yw eich barn am blant sydd ddim yn mynd i'w hysgol leol?
A: Oherwydd dewis rhieni mae hyn yn digwydd ar draws pob ysgol yn y sir.
S: Mae rhieni sy'n mynd a'u plant i ysgolion y tu allan i'r dalgylch yn achosi problemau i ysgolion lleol.
A: Mae'n wir, os byddai pobl yn dewis eu hysgol leol, efallai y byddai modd datrys y broblem o leoedd gwag mewn rhai ysgolion. Rydym yn defnyddio eich polisi cludiant i geisio cefnogi ysgolion lleol.
C: A wneir unrhyw waith ar pam nad yw pobl yn dewis eu hysgolion lleol?
A: Heb ofyn y cwestiwn hwn i rieni gan mai dewis rhieni yw'r gyfraith. Gall fod nifer o resymau megis patrymau gwaith, ble mae teuluoedd yn byw, amgyffred o'r addysg a ddarperir gan ysgol.
S: Teimlo mai amgyffred yw'r prif reswm.
C: A ydych wedi ymgynghori â Sir Ddinbych a Gwynedd ynglŷn â'r ddogfen hon?
A: Na ddim eto. Mae pob sir yng Nghymru yn wynebu'r un broblem a Chonwy a rhaid iddynt gynhyrchu strategaeth foderneiddio. Byddwn yn dechrau trafod ysgolion gyda hwy pan fyddwn yn dechrau datblygu'r strategaeth ddrafft.
C: A oes unrhyw oblygiadau ariannol i gludo plant i siroedd eraill? A ydych yn gwybod sawl plentyn o Gonwy a gludir i Sir Ddinbych?
A: Rydym yn gwybod sawl plentyn a gludir i Sir Ddinbych ond nid yw'r wybodaeth ar gael heno.
C: Ym mhle mae plant yn byw sydd y tu allan i'r dalgylch ac sy'n dod i Fro Aled?
A: Nid oes gennym yr wybodaeth hon heno ond gellir ei darparu.
C: Ym mha ddalgylch mae plant o Dan y Fron?
A: Derbyn fod y plant hyn yn nalgylch Rhydgaled a'n bod yn eu cludo i Fro Aled. Mae hyn yn fater hanesyddol. Derbyn fod materion cymdeithasol yn yr ardal wledig hefyd sy'n effeithio ar yr ysgol a ddewisir ar gyfer y plant.

Cyflwynodd GT y gweithdy a gofynnodd am adborth ar beth roedd pobl eisiau i'r adran addysg ei wybod am yr ardal a'u hysgolion.

3. Adborth gweithdy

Ysgol Bro Aled

<u>Addysg mewn ardal wledig</u>

- Mae'r Gymraeg yn cael ei diogelu

- Ymwybyddiaeth o gyfraniad teuluol, h.y. bod y teuluoedd o genhedlaeth i genhedlaeth yn dilyn y patrwm

Anghenion a lles plant

- Ysgol y wlad yn ysgol meithrin ymdeimlad o berthyn
- 85% o deuluoedd Cymraeg

- Pwysig nad yw plant yn teithio rhy bell
- Plant yn cael eu haddysgu yn eu mam iaith
- Darpariaeth amser cinio i'r plant – adnoddau chwarae a diogelwch

Gwerthoedd ysgolion gwledig

- Mae'n hanfodol bod plant yn cael mynychu eu hysgol leol, gan beidio â gorfod teithio'n bell i gael eu haddysg
- Bod y plant yn cyfrannu yn y gymdeithas megis mynychu'r capel, eisteddfodau, Urdd gan ddatblygu hyder a theimlad o berthyn
- Chwarae yn eu mam iaith, a hynny yn golygu cymdeithasu yn naturiol yn y Gymraeg
- Ysgolion gwledig yn adnabod a pharchu'r hen draddodiadau lleol
- Unwaith mae ysgol wledig yn cael ei chau, mae'r gymuned yn chwalu, yn cael ei thlodi ac nid oes posibilrwydd o ddad wneud y difrod hwn. Mae digon o esiamplau yn yr ardal hon, e.e. Ysgol Tanyfron ac Ysgol Nantglyn
- Cysylltiadau teuluol yn rhoi balchder o gael addysg yn yr un ysgol a rhieni a theidiau a neiniau

Adeiladau ac Adnoddau

- Toiledau anabl
- Ramp anabl
- Man cyfarfod
- Lle parcio hwylus mawr
- Cyfleusterau addas / diogel ar gyfer plant blwyddyn derbyn a blwyddyn 1 a 2

- Bwriad i fuddsoddi mewn ystafell gyfrifiadurol yn y flwyddyn ariannol nesaf sef Ebrill 2010.

- Rhewgell ar gael i'r plant ac athrawon ar gyfer bwyd cinio, clwb coginio ar ôl ysgol

- Ffynnon ddŵr

- Wal ddringo

- Gardd lysiau, ardal blodau gwyllt, cadwraeth

- Paneli solar i arbed ynni – ysgol sydd yn ymgyrchu at y nod o gynaladwyedd ECO ysgol

- Bin ail-gylchu

- Cae chwarae helaeth – buarth mawr diogel

- Byrddau bwyta allan

- Pêl fasged / rhwyd ar y wal tu allan

<u>Materion cymdeithasol</u>

- Mae'r dalgylch 'gymdeithasol' yn wahanol i ddalgylch 'ddaearyddol'

- Ysgol y wlad yn ysgol sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned

- Cau ysgol wledig yn mynd i ddinistrio'r Gymraeg, a'i defnydd yn yr ardal a'r ymdeimlad o Gymreictod

- Cynnal traddodiadau

- Colli Ysgol, colli cymuned, colli'r teimlad o berthyn ac yn bennaf plant yr ardal yn cael eu chwalu

<u>Defnydd cymunedol o'r adeiladau</u>

- Merched y Wawr

- WI

- Ffermwyr Ifanc

- Cymdeithas hanes

- Côr Bro Aled

- ATB
- Urdd
- Eisteddfodau
- Ysgol feithrin
- Clwb henoed
- Ti a Fi
- NFU
- Bowlio
- Cyngherddau
- Cyngor Cymuned
- Clwb Ysgol
- Sioe Amaeth Llan
- Cymdeithas rhieni ac athrawon
- Cymdeithas y llywodraethwyr
- Sadwrn siarad
- Bore coffi – codi arian at elusennau
- Cylch yr Aled
- Partïon preifat

<u>Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas</u>

- Oes pris ar gymuned?
- Oes pris ar gymdeithas Gymreig?
- Yr adeiladau yn cael eu defnyddio i amryw o wahanol gymdeithasau lleol – gweler y rhestr arall
- Yr ysgol yw calon y gymuned, ac mae'r disgyblion, athrawon, rhieni, ffrindiau yn gyfeillion, cymdogion, yn cael budd o'r gwaith da

- Adroddiad diwedda Estyn yn dweud bod cyfraniad yr ysgol yn y gymuned yn amhrisiadwy. Am fod yr ysgolion yn gorfod dilyn cymelliadau Estyn, oes gan y Cyngor yr un oblygiadau!

Rhydgaled

Addysg mewn ardal wledig

Cynhaliaeth i'w gilydd

- Cydweithio
- Dyfodol cefn gwlad
- Lleoliad yr ysgol – creu diddordeb ym myd natur
- Gwaith ac economi cefn gwlad
- Magu gwreiddiau

Defnydd cymunedol o'r adeilad

- Cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol
- Ar adegau yn cael ei defnyddio ar gyfer ysgol meithrin

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Heb ysgol, ni fyddai'n debygol y byddai neuadd gymunedol yn ffynnu – llwyddiant cylch meithrin yn y gymuned yn bwydo'r ysgol
- Ysgol = neuadd gymunedol = digwyddiadau a sefydliadau yn ffynnu yn y gymuned

Gwerthoedd ysgol wledig

- Plant yn cael eu haddysg yn eu cynefin
- Cadw'r gymuned yn fyw
- Cefnogi achosion lleol – cysylltiad rhwng gwahanol gymdeithasau
- Cynnal a datblygu'r iaith Gymraeg
- Cynnal a datblygu diwylliant Cymreig
- Ymdeimlad o deulu / perthynas

- Diogelwch

Adeiladau ac Adnoddau

- Wedi ei adeiladu'n dda
- Ansawdd adnoddau
- Bws mini ar gyfer defnydd lleol
- Nifer o liniaduron – band llydan
- Addasu'r dosbarth ar gyfer y cyfnod sylfaen
- Ystafell adnoddau – celf, cerdd, technoleg, addysg gorfforol, cyfarfodydd staff
- Gardd gwyllt, cynllunio gardd lysiau – gofal am yr amgylchedd

Anghenion a lles y plant

- Addysg o safon
- Taith fer i'r ysgol
- Gofal a diogelwch
- Dosbarth o faint derbyniol
- Hawl am addysg a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Addysg yn eu cymuned
- Plant ddim yn gallu cuddio problemau cymdeithasol mor hawdd mewn ysgol fach, e.e. bwlio
- Ddim angen teithio mor bell i'r ysgol yn enwedig yn y gaeaf
- Disgyblion yn gallu cael sylw arbennig os bydd angen mewn ysgolion bach
- Athrawon yn adnabod plant ac yn gyfarwydd gyda'u hanghenion mewn ysgolion bychan
- Cyfle i bob plentyn gymryd rhan mewn yng ngweithgareddau'r ysgol mewn ysgol fach

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Hanfodol i gynnal cymuned
- Pwysigrwydd i'r iaith Gymraeg
- Cydweithio ar gyfer y dyfodol
- Datblygu disgyblion o werthoedd yr amgylchedd naturiol o'u cwmpas – y byd amaeth

<u>Materion cymdeithasol</u>

- Galluogi poblogaeth cymuned adnabod, cymdeithasu a chefnogi ei gilydd
- Sgiliau cymdeithasu gwahanol / gwell?
- Cymdeithasu ag oedrannau gwahanol
- Elfen deuluol, agosatrwydd, adnabod ei gilydd a chefnogi ei gilydd

Dywedodd GT y bydd yn casglu'r holl wybodaeth a'r adborth trwy'r penaethiaid. Gellir parhau i gyflwyno syniadau a safbwyntiau ar ôl y cyfarfod hwn ar e-bost at TJB neu'r Gwasanaethau Addysg a darperir hyn trwy'r penaethiaid.

4. Sesiwn cwestiynau ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: A ydych yn defnyddio'r dull hwn o ymgynghori gan eich bod wedi gweld beth ddigwyddodd yng Ngwynedd a'r dicter a welwyd gan rieni?
A: Do rydym wedi dysgu o'r hyn ddigwyddodd mewn siroedd eraill. Rydym yn cymryd y broses yn araf er mwyn ymgynghori'n deg a chynhyrchu'r canlyniadau gorau.
C: A ydych yn cael llawer o bwysau gan LlCC i wneud toriadau?
A: Mae'r cynulliad yn disgwyl i ni leihau nifer y lleoedd gwag gan ei fod yn bolisi LlCC ac mae'n rhaid i ni ymateb iddo. Hefyd rhaid i ni ddangos i Estyn ein bod yn ymateb i'r dasg a osodwyd i ni gan LlCC. Rhaid i ni drin yr arian refeniw a roddir i ni a'i fuddsoddi'r effeithlon. Felly ni allwn gynnal 62 ysgol yn y dyfodol.
C: A allwch gael arian o feysydd eraill megis grantiau Ewropeaidd?
A: Fel awdurdod rydym yn gwybod faint o arian y cawn gan LlCC a gallwn gael rhywfaint o grantiau arian cyfalaf gan Ewrop. Fodd bynnag nid oes llawer o ffynonellau ar gael.
C: Pam fod Llannefydd yn ddiogel?
A: Bydd Llannefydd yn cael ei adolygu rhywbryd ond nid yw angen camau brys oherwydd ei leoliad, nifer isel o leoedd gwag a'r adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol.
C: Pam nad yw'r data wedi ei ddiweddaru ers i newidiadau gael eu gwneud yn yr ysgolion?

A: Roedd y data yn gywir pan y'u hargraffwyd ond fe'i adolygir a'i gywiro cyn datblygu a chyhoeddi'r strategaeth ddrafft.

C: Nid oes problem yn Rhydgaled o ran lleoedd gwag felly pam ydym o dan adolygiad dechreuol.

A: Mae llawer o adnoddau nad ydynt ar gael neu'n cyrraedd y safon yn ôl y rhestr gyfredol yn y ddogfen. Fodd bynnag rydym yn deall fod angen diweddaru'r rhestr.

C: Beth yw'r opsiynau ar gyfer yr ardal hon?

A: Ffederaleiddio, clystyru neu ysgol ardal. Bydd yr opsiwn a ddymunir yn cael ei drafod gyda chi ar ôl ei ddewis.

C: A'i bwriad yw cau Rhydgaled a symud y plant i Fro Aled?

A: Nid oes cynllun, mae nifer o opsiynau a rhaid i ni ystyried pob un. Y lefel nesaf o ymgynghori yw edrych ar yr holl opsiynau dewis opsiwn a ddymunir a chyflwyno hwn yn y strategaeth ddrafft. Mae rhai ardaloedd eisiau newid a bydd y rhain yn cael eu blaenoriaethu pan ysgrifennir y strategaeth ddrafft.

S: Angen cofio effeithiau teithio pellter hir os ydych yn cau ysgol a chludo plant i ysgol arall. Bydd problemau yn y gaeaf.

A: Pe byddem yn dewis opsiwn ble golygir teithio, byddwn yn gwerthuso'r opsiynau o ran yr holl fanteision ac anfanteision. Wrth edrych ar opsiwn a ddymunir, byddwn yn sicr yn ystyried teithio yn ogystal â'r effaith ar y gymdeithas.

C: Sawl ysgol sydd o dan adolygiad dechreuol ar yr arfordir?

A: 23

C: Pam na all yr awdurdod wario mwy ar addysg?

A: Mae'r cyngor yn ystyriol o bwysigrwydd addysg ac wedi blaenoriaethu gwariant yn y maes hwn am nifer o flynyddoedd. Mae gwasanaethau eraill sydd angen buddsoddiad a rhaid i'r cyngor ddosbarthu'r arian cyn effeithlon ag sy'n bosib.

S: Bydd cau ysgolion mewn ysgolion gwledig yn cael mwy o effaith nag ar yr arfordir.

S: Pe byddem yn cael adeiladu tai fforddiadwy yng nghefn gwlad, byddai hyn yn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n byw yma a nifer y disgyblion yn yr ysgolion. Dylid cyflwyno'r neges hon yn ôl i'r Cyngor. A yw'n bolisi gan y cyngor i sicrhau fod pobl yn byw mewn tref?

A: Na nid dyma'r polisi. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o broblemau tai fforddiadwy yng nghefn gwlad. Bydd y cynllun datblygu lleol nesaf yn ei wneud yn haws i bobl adeiladu tai fforddiadwy yng nghefn gwlad a bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl leol adeiladu tai yn lleol. Cyhoeddir y Cynllun Datblygu Lleol yn 2010 ac felly'n cyd-redeg â datblygiad y strategaeth hon.

S: Ni chredaf fod digon o gydweithrediad rhwng gwahanol adrannau o'r Cyngor. Angen buddsoddi yng nghymunedau cefn gwlad a darparu mwy o wasanaethau yn yr ardal hon.

A: Rydym yn cytuno fod angen cydweithrediad ac rydym yn cydweithio â'r gwasanaethau datblygu cymunedol i sicrhau fod hyn yn digwydd. Mae cynrychiolydd o'r adran honno yma heno sy'n gwrando ar eich safbwyntiau a bydd yn eu cymryd ymlaen.

S: Pe byddai gennym ychydig yn fwy o ddisgyblion yn ein hysgolion, byddai'r gost fesul disgybl yn newid yn sylweddol.

A: Cytuno y byddai cynnydd bychan yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion hyn yn cael effaith ar y gost fesul disgybl.

S: Nid oes llawer o drafodaeth am safon yr addysg yn y ddwy ysgol, gan fod yr adeiladau yn hen, a yw hyn yn gwneud safon yr addysg yn waeth?

A: Dim tystiolaeth o hyn ac rydym yn falch iawn o'r safonau a gyrhaeddir ym mhob ysgol. Os ydym yn buddsoddi cyfalaf mewn ysgol, mae tystiolaeth y bydd safonau yn gwella. Rydym angen strategaeth i sicrhau ein bod yn buddsoddi cyn effeithlon ag sy'n bosib. Nid ydym yn poeni am y safonau a gyrhaeddir gan unrhyw ysgol.

S: Mae'r polisi o leihau lleoedd gag gan LlCC yn effeithio ar bob ysgol yng Nghymru. Mae'n effeithio yn arbennig ar addysg wledig ac mae angen i LlCC ddeall fod addysg wledig yn costio a dylid ei gefnogi beth bynnag.

A: Cytuno gyda hynny 100%. Rydym yn cyflwyno'r achos hwn i LlCC. Rydym eisiau cynnig yr addysg orau bosib i blant yn eu hardal leol o fewn y cyfyngiadau cyllidebol rydym yn eu hwynebu. Nid yw 62 ysgol yn gynaliadwy ond nid yw hyn yn golygu bod rhaid i ni gau ysgolion gwledig.

S: Os ydych yn cau'r ysgolion rydych yn tynnu calon y gymdeithas. Os oes ysgol yn y pentref mae'n annog pobl i symud i'r pentref.

C: Nid oes swyddi i gadw pobl yn eu bröydd. Mae ysgolion llai yn rhoi gwell addysg i bobl. Rhaid i chi wario mwy ar ddysgu gydol oes mewn ardaloedd arfordirol gan nad ydynt wedi cael cystal addysg yn gynnar yn eu bywyd.

A: Nid oes tystiolaeth i gefnogi hyn.

S: Colli athrawon o ansawdd da mewn ysgolion sy'n wynebu'r posibilrwydd o gau.

A: Wedi cymryd hyn i ystyriaeth ac felly yn adolygu ysgolion mewn ardaloedd arfordirol a gwledig. Mae gostyngiad mewn poblogaeth disgyblion hefyd fodd bynnag felly mae'n debygol y bydd rhaid i ysgolion ddiswyddo staff o ganlyniad i hyn.

S: Mae addysg yn fwy na dim ond adeiladau. Rhaid ystyried gwerth addysgu pobl yn yr ardal wledig ac yng nghefn gwlad.

A: Derbyn hyn ac fe'i cymerir i ystyriaeth.

C: Unwaith fydd ysgol yn cau, ni fydd byth yn agor.

A: Deall hyn a dyma pam rydym eisiau trafod pethau gyda chi. Rydym eisiau'r addysg orau bosibl i blant yn yr ardal hon.

C: Pam na wnewch fuddsoddi arian yn awr mewn ardaloedd gwledig?

A: Ni allwn fuddsoddi mewn 62 ysgol. Gallwn ond gael arian cyfalaf trwy'r strategaeth hon ac mae angen iddi ddangos ein bod yn fodlon gwneud newidiadau.

C: Rydym yn deall ei bod yn debygol y bydd newid yn yr ardal hon. Beth mae ffederaleiddio yn ei olygu?

A: Mae nifer o wahanol fathau ond yn syml mae'n golygu cadw'r ddau adeilad gyda'r staff ond cael un pennaeth ac un corff llywodraethol. Byddai hyn dal yn creu lleoedd gwag ond angen mesur hyn yn erbyn cael adeilad ysgol yn y gymdeithas.

C: A fyddai ffederaleiddio ond yn bosib rhwng dwy ysgol?

A: Gallai gynnwys ysgolion eraill yn yr ardal ond nid ydym wedi edrych ar hyn. Mae nifer o fanteision i ffederaleiddio gan ei fod yn galluogi athrawon i ganolbwyntio mwy ar addysg.

C: A yw'n wir fod y rhan fwyaf o leoedd gwag mewn ysgolion arfordirol?

A: Gallwn gyfrifo hyn ond nid oes gennym yr wybodaeth wrth law.

C: A fydd cyfle i drafod hyn eto?

A: Bydd byddwn yn edrych ar sut y gallwn ymgynghori ar y cam nesaf a'i gynnwys yn y broses.

C: A ydych wedi cysylltu ag ysgolion uwchradd i nodi eu barn hwy am y ddwy ysgol gynradd hyn?

A: Nid ar hyn o bryd ond byddwn yn gwneud hyn pan fyddwn yn dechrau edrych ar wahanol opsiynau a'r opsiwn a ddymunir.

C: Os na allwch ariannu 62 o ysgolion, sawl ysgol sydd gennych mewn golwg?

A: Ni allwn gyfrifo sawl ysgol fydd ar y diwedd ar hyn o bryd. Rhaid i ni ystyried beth sydd orau ar gyfer ardal benodol.

S: Dylid dechrau ystyried cael dim ond un athro mewn ysgol os mai dyna'r oll sydd ei angen.

Diolchodd GT i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Wal syniadau/bryderon

Mwy o deithio i blant

Ffyrdd gwledig – anodd iawn fyddai teithio'n bellach i ysgol arall

Mae dalgylch 'cymdeithasol' yn wahanol i ddalgylch daearyddol

Angen rhyddhau tir y cyngor i adeiladu tai fforddiadwy yn y Groes! Mae angen hyn i gadw'r ysgol i'r dyfodol

Ysgolion gwledig yn bwysig i helpu cynnal a datblygu'r iaith Gymraeg (Croes gyfeirio gyda pholisïau iaith Conwy + cynulliad)
Effaith tywydd drwg ar allu i gludo plant i ysgol tu allan i'r ardal

Cau ysgol – Cau cymuned yn arwain at ladd iaith

Angen gwneud yn siŵr nad ydym yn creu anniddigrwydd ymysg rhieni wrth drafod ysgolion

Y cynghorau yn manteisio ar yr hinsawdd economaidd ac yn cael cydymdeimlad gan y niferoedd

Bod hi'n well gan y cyngor petai pawb yn byw mewn trefi

Mae ysgol Rhydgaled /Neuadd Goffa yn Groes yn dibynnu ar ei gilydd

Heb ysgol yn Rhydgaled anodd iawn bydd cynnal y neuadd yn Groes

Ysgolion gwledig yn fodlon cydweithio i arbed arian, rhannu adnoddau ac ati i sicrhau dyfodol llewyrchus i addysg y plant

Bod pobl a chymdeithas cefn gwlad yn cael eu cosbi
Addysg yn ein cymuned

Tybed ai camgymeriad oedd rhoi ryddid i rieni ddewis ysgol - effaith hyn yw diboblogi rhai ysgolion a thalu am gludiant ar draws gwlad

Plant yw dyfodol ein cymuned – er mwyn i blant aros a chadw iaith rhaid cael addysg Gymraeg

Osgoi sibrydion - osgoi proffwydoliaeth h.y. sïon neu fygythiadau yn golygu fod plant a theuluoedd yn newid ysgolion/symud o'r ardal

Dyfodol y Gymraeg

Dim ysgol – dim cymuned

Effaith teithio ar allu/iechyd plant i ganolbwyntio yn yr ysgol

Bod arian a arbedwyd trwy gau ysgolion yn cael ei wario ar ysgolion trefol

Mae'r ysgol gynradd mewn ardaloedd gwledig yn rhan hanfodol o'r gymdeithas Gymraeg

Angen meddwl yn fwy creadigol - rhannu adnoddau Adran addysg, Canolfan Gymdeithasol, capel – cyfuno'r arian i fuddsoddi mewn gwasanaethau gwledig

A yw hyn yn arwain at gau ysgolion yn awtomatig?

Grant cenhedlu gan y cynulliad i hyrwyddo cynhyrchu plant dwyieithog mewn ardaloedd gwledig

Os digwydd rhywbeth i Rhydgaled, Ysgolion Henllan a Dinbych bydd yn elwa nid Bro Aled

Bod y cyngor yn rhoi pris ar gymdeithas

Hawl i bob plentyn gael addysg o fewn 2-3 milltir o'u cartref

Beth sy'n digwydd os ydych yn gostwng capasiti ac yna mewn blynyddoedd i ddod mae'n cael ei wyrdroi?

Plant yn gwahanu

Beth yw'r gwahaniaeth tybed rhwng yr hyn a gaiff ei wario yng nghefn gwlad a'r trefi

Buddsoddi yn yr ysgol a'r ardaloedd sy'n bodoli. Bydd hyn yn costio ond pa bris am gydlyniad gwledig buddsoddwch yn y dyfodol

Ffyniant cymunedol yn holl bwysig

Cyfuno yn economi ffug e.e. plant Rhyd yn mynd i Ddinbych

Cyngor Sir i edrych am arian o ffynonellau eraill heblaw'r Cynulliad e.e. HLF, Ewrop, Cadw, masnachol

Hawl i bob plentyn gael iaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cymuned

Plant mewn ysgol fach fel Rhydgaled yn rhugl yn y Gymraeg o fewn blwyddyn. Symud i ysgol fwy yn bendant yn lladd iaith

Cynnal astudiaeth ar pam fod plant yn mynd i ysgolion y tu allan i'w dalgylch

Ysgol leol i blant lleol
Mwy o bobl ifanc yn symud o'r ardal os na fydd ysgol leol

Croes gyfeirio'r Strategaeth Addysg hefo'r strategaeth Cymunedol (+strategaeth Cymdeithasol?)

Diffyg dealltwriaeth o amgylchedd natur ac amaethyddol os fydd y plant yn symud i ysgol fwy trefol e.e. Dinbych

Rhieni sydd methu gyrru, felly dim modd i'r plant fynd yno

Teithio ychwanegol i'r plant - tywydd